# Ei wneud yn iawn

**Byw gyda'ch gilydd?**
**Yn cael budd-dal?**
**Rhowch wybod i ni.**

# Mae'r gyfraith yn newid

Mae'r gyfraith yn newid yn ddiweddarach eleni - o 5 Rhagfyr 2005, fel pâr un-rhyw, byddwch yn gallu ennill cydnabyddiaeth am eich perthynas. Byddwch yn gwneud hyn drwy ffurfio partneriaeth sifil, berthynas gyfreithiol newydd ar gyfer dau berson o'r un-rhyw.

Os byddwch yn penderfynu ffurfio partneriaeth sifil gallai hyn effeithio ar eich budd-daliadau.

Os na fyddwch yn ffurfio partneriaeth sifil, ond yn byw gyda'ch gilydd fel cwpl, gallai hyn effeithio ar eich budd-daliadau hefyd.

Os ydych chi a'ch partner un-rhyw yn byw gyda'ch gilydd fel cwpl, rhaid i chi gysylltu â'r swyddfa sy'n delio â'ch budd-dal.

**Mae'r ffurflen hon yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig ac ni ddylai gael ei thrin fel datganiad cyflawn o'r gyfraith.**

Sut y gallai'r newidiadau hyn effeithio ar fy mudd-daliadau?

Ble y gallaf gael mwy o wybodaeth?

# Sut y gallai'r newidiadau hyn effeithio ar fy mudd-daliadau?

## Budd-daliadau ar Sail Incwm

Wrth fudd-daliadau ar sail incwm golygwn:

Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith (ar sail incwm), Credyd Pensiwn, Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor.

O 5 Rhagfyr 2005, bydd y rheolau am hawlio'r budd-daliadau hyn yn newid:

- os ydych yn bartner sifil, rhaid i chi a'ch partner hawlio fel cwpl
- os ydych yn cael unrhyw un o'r budd-daliadau hyn pan fyddwch yn ffurfio eich partneriaeth sifil, bydd yn rhaid i chi hawlio fel cwpl
- os ydych yn byw fel cwpl gyda rhywun hyd yn oed os nad ydych yn bartneriaid sifil, bydd yn rhaid i chi hawlio fel cwpl

Os yw unrhyw un o'r rhain yn berthnasol i chi, rhaid i chi ddweud wrth y swyddfa sy'n delio â'ch budd-dal cyn gynted ag y gallwch.

## Pensiwn y Wladwriaeth

O 5 Rhagfyr 2005, bydd gan bartneriaid sifil y rhan fwyaf o'r un hawliau o ran pensiwn y wladwriaeth ag sy'n berthnasol i wŷr a gweddwon. Am wybodaeth bellach dylech gysylltu â'r swyddfa sy'n delio â'ch pensiwn.

## Budd-daliadau Profedigaeth

O 5 Rhagfyr 2005, os ydych yn cael Budd-dal Profedigaeth ac rydych yn ffurfio partneriaeth sifil, neu'n byw fel cwpl gyda phartner un-rhyw, mae angen i chi gysylltu â'r swyddfa sy'n delio â'ch budd-dal.

## Budd-dal Gwraig Weddw

O 5 Rhagfyr 2005, os ydych yn cael Budd-dal Gwraig Weddw ac rydych yn ffurfio partneriaeth sifil, neu'n byw fel cwpl gyda phartner un-rhyw, mae angen i chi gysylltu â'r swyddfa sy'n delio â'ch budd-dal.

## Budd-daliadau Eraill

O 5 Rhagfyr 2005, os ydych yn cael budd-daliadau megis Budd-dal Analluogrwydd, Lwfans Gofalwr, Lwfans Mamolaeth, Lwfans Anabledd Difrifol ac Atodiad i'r Anghyflogadwy, ac mae cynnydd dibyniaeth oedolyn yn daladwy ar gyfer priod, mae'n bosibl y byddwch yn gallu cael rhagor ar gyfer eich partner sifil.

Gofynnwch am hyn yn y swyddfa sy'n delio â'ch cais.

## Cynnal Plant

O 5 Rhagfyr 2005, bydd partneriaid sifil sy'n rhieni yn cael eu trin yn yr un ffordd â phartneriaid priod ar gyfer Cynnal Plant. Hefyd, bydd rhieni sy'n byw gyda phartner un-rhyw hyd yn oed pan nad ydynt wedi ffurfio perthynas sifil yn cael eu trin yn yr un ffordd â rhieni sy'n byw gyda phartner o'r rhyw arall, ond nad ydynt yn briod â'i gilydd. Yn ddibynnol ar eich sefyllfa, gallai hyn effeithio ar y swm o gynhaliaeth a delir ar gyfer eich plentyn. Am wybodaeth bellach dylech gysylltu â'r Asiantaeth Cynnal Plant.

# Ble y gallaf gael mwy o wybodaeth?

## Cysylltiadau Defnyddiol

Mae mwy o wybodaeth am bartneriaeth sifil ar wefan Uned Merched a Chydraddoldeb, yr Adran Masnach a Diwydiant:
**www.womenandequalityunit.gov.uk**
Gwefannau eraill:
**www.dwp.gov.uk** am wybodaeth gyffredinol am fudd-daliadau
**www.adviceguide.org.uk** Gwefan y Ganolfan Cyngor ar Bopeth - am gyngor ar lein ac i ddod o hyd i'ch canolfan leol, neu edrychwch o dan 'C' yn eich llyfr ffôn.
**www.direct.gov.uk**

## Rhifau Ffôn

**Llinell Ymholiadau Budd-dal**
0800 882200
Os oes gennych anawsterau clywed neu leferydd, ffôn testun 0800 243355

**Asiantaeth Cynnal Plant**
08457 133133
Os oes gennych anawsterau clywed neu leferydd, ffôn testun 08457 138924

**Y Gwasanaeth Pensiwn**
0845 6060265
Os oes gennych anawsterau clywed neu leferydd, ffôn testun 0845 6060285

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau sy'n croesawu amrywiaeth ac sy'n hybu cyfle cyfartal. Fel cyflogwr rydym hefyd yn ymrwymedig i gydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth o fewn ein gweithlu. Ein nod yw sicrhau bod yr ymrwymiadau hyn, a atgyfnerthir gan ein gwerthoedd, yn cael eu cynnwys yn ein gwaith o ddydd i ddydd wrth ddelio â phob un o'n cwsmeriaid, cydweithwyr a phartneriaid.

Cynhyrchwyd y wybodaeth hon ar y cyd gyda Chyngor ar Bopeth a'r Adran Gwaith a Phensiynau a'i busnesau: Asiantaeth Cynnal Plant, Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr, Y Ganolfan Byd Gwaith a'r Gwasanaeth Pensiwn.

ISBN: 1-84388-619-7